# Bundle BCU Health Board - Welsh 25 June 2026

1 09:30 - MATERION RHAGARWEINIOL

1.1 09:30 - 26.124 Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb
*Dyfed Edwards, Cadeirydd*

1.2 09:33 - 26.125 Datganiadau o Fuddiant yn ymwneud â'r Agenda
*Dyfed Edwards, Cadeirydd*

2 09:35 - ADRODDIAD A CHYFRIFON BLYNYDDOL

2.1 09:35 - 26.126 Adroddiad Sicrwydd y Pwyllgor Archwilio
*Paul Lambert, Cadeirydd y Pwyllgor*

2.2 09:40 - 26.127 Cyflwyno Cyfrifon Ariannol Blynyddol 2025-2026 wedi'u Harchwilio
*Russell Caldicott, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid*
26.127 CYM Audited Annual Accounts Submission 2025-26 - Health Board

2.3 09:55 - 26.128 Adroddiad Blynyddol 2025-2026
*Pam Wenger, Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol*
26.128 CYM Annual Report 25-26 (Cover Paper - Board)

3 10:15 - ARCHWILIADAU MEWNOL

3.1 10:15 - 26.129 Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ac Adroddiad Blynyddol 2025-2026
*Pam Wenger, Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol*
26.129 CYM HIA Opinion and Annual Report 2025-26 v1.0 - Board

4 10:30 - ARCHWILIADAU ALLANOL

4.1 10:30 - 26.130 ISA 260 Archwilio Datganiadau Ariannol
*Michelle Phoenix, Archwilio Cymru*

5 10:45 - GOFAL BRYS AC ARGYFWNG

5.1 10:45 - 26.131 Achos Busnes yr Adran Achosion Brys
*Clara Day, Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol*

6 11:30 - MATERION I GLOI

6.1 11:30 - 26.132 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf
*Dyfed Edwards, Cadeirydd*
*Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol: Dydd Mercher 29 Gorffennaf 2026*
*Bwrdd Iechyd: Dydd Iau 30 Gorffennaf 2026*

## Bwrdd Iechyd

# CYFLWYNO CYFRIFON ARIANNOL BLYNYDDOL 2025-26 WEDI'U HARCHWILIO

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod**<br>**Date of Meeting** | 25 Mehefin 2026 |
| **Statws Cyhoeddi**<br>**Publication Status** | Agored / Cyhoeddus<br>Fersiwn Derfynol |
| **Enw a theitl Awdur(on) yr Adroddiad**<br>**Report Author name and title** | Simon Weaver, Pennaeth Rheoli Ariannol |
| **Enw a theitl Aelod Arweiniol o'r Tîm Gweithredol**<br>**Lead Executive Team Member name and title** | Russell Caldicott, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid |

| | |
|---|---|
| **Pwrpas yr Adroddiad**<br>**Report Purpose** | I'w Gymeradwyo |

**Crynodeb Gweithredol**
**Executive Summary**

Mae'n ofyniad statudol ar y Bwrdd Iechyd i baratoi set o ddatganiadau ariannol blynyddol mewn fformat safonol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.

Cyflwynwyd cyfrifon blynyddol 2025-26 heb eu harchwilio i Lywodraeth Cymru ac Archwilio Cymru ar 1 Mai 2026. Cyflwynwyd y cyfrifon i'r Pwyllgor Archwilio ar 19 Mai 2026 (gweler atodiad 2) a 23 Mehefin 2026.

Bydd Archwilio Cymru yn cyflwyno canfyddiadau ei archwiliad o'r datganiadau ariannol blynyddol. Dyma'r elfennau allweddol i dynnu sylw'r rheolwyr atynt:

- Ni fu unrhyw newid i'r sefyllfa alldro a gofnodwyd sydd heb newid o heb ei archwilio i'r cyflwyniad terfynol;
- Bydd cyfrifon blynyddol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2025-26 yn cael barn gywir a theg ddiamod; mae hyn yn golygu bod yr Archwilydd Cyffredinol yn fodlon eu bod yn adlewyrchu sefyllfa'r Bwrdd Iechyd a'i gostau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn;
- Fodd bynnag, bydd y cyfrifon yn cael barn reoleiddiol amodol gan nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei ddyletswydd ariannol gyntaf i fantoli'r gyllideb dros y cyfnod o dair blynedd o 2023-24 i 2025-26;
- Mae Archwilio Cymru wedi adrodd am ddau gamddatganiad heb eu cywiro sy'n deillio o'r ffordd y mae meddalwedd cofrestr asedau cyfalaf y Bwrdd

Iechyd yn cyfrifo ac yn adrodd ar rai mathau o drafodion; mae'r materion hyn wedi'u cynnwys mewn nodyn penodol o'r cyfrifon ac nid ydynt yn effeithio ar werth net cyffredinol asedau sefydlog ar bapur;

- Nododd Archwilio Cymru hefyd nifer fach o gamddatganiadau yn y cyflwyniad heb ei archwilio a gywirwyd gan y rheolwyr yn ystod yr archwiliad.

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

**Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 23 Mehefin 2026**

**Adroddiad ar Gyfrifon Ariannol 2025-26 gan y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol**

## 1.0 Cyflwyniad

Mae'n ofyniad statudol ar y Bwrdd Iechyd i baratoi set o ddatganiadau ariannol blynyddol mewn fformat safonol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn unol â Deddf Gwasanaethau Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, Llawlyfr Cyfrifon Bwrdd Iechyd Llywodraeth Cymru a llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EF (FReM)

Cyflwynwyd datganiadau ariannol blynyddol 2025-26 heb eu harchwilio i Lywodraeth Cymru ac Archwilio Cymru ar 1 Mai 2026. Nid bwriad yr adroddiad hwn yw manylu ar yr elfennau sydd yn y cyfrifon, gan fod y rhain eisoes wedi cael eu hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio ar 19 Mai 2026 a 23 Mehefin 2026.

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gael Archwilio Cymru i adolygu'r datganiadau ariannol drafft, ac yna cyhoeddi adroddiad ar ei ganfyddiadau i'r 'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu' gyda sgôr gyffredinol o ran y cyfrifon sy'n cynnig barn gywir a theg, er mwyn i'r Pwyllgor Archwilio ei ystyried wrth argymell i'r Bwrdd Iechyd fabwysiadu'r Cyfrifon yn ehangach.

Mae Archwilio Cymru bellach wedi cwblhau ei adolygiad o'r datganiadau ariannol ac mae'r adroddiad hwn wedi cael ei baratoi er mwyn i'r aelodau nodi'r prif ganfyddiadau o safbwynt y rheolwyr yn dilyn cynhyrchu cyfrifon archwiliedig drafft i derfynol, gan nodi y dylid cael adroddiad ar wahân gan Archwilio Cymru i fynegi ei ganfyddiadau a'i farn ar y datganiadau ariannol.

## 2.0 Cefndir

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn bwriadu cyhoeddi barn gywir a theg ddiamod ar gyfrifon blynyddol 2025-26 y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, mae'n cynnig cyflwyno barn reoleiddiol amodol ar y cyfrifon, gan nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei ddyletswydd ariannol gyntaf i fantoli'r gyllideb

yn erbyn y Terfyn Adnoddau Refeniw dros gyfnod o dair blynedd 2023-24 i 2025-26.

## 3.0 Canfyddiadau a Chasgliadau Allweddol

Er y bydd Archwilio Cymru yn cyflwyno ei ganfyddiadau manwl i'r aelodau ar archwilio'r datganiadau ariannol, dyma'r prif elfennau i dynnu sylw'r rheolwyr atynt:

- Ni fu unrhyw newid i'r sefyllfa alldro a gofnodwyd sydd heb newid o heb ei archwilio i'r cyflwyniad terfynol;
- Bydd cyfrifon blynyddol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2025-26 yn cael barn gywir a theg ddiamod; mae hyn yn golygu bod yr Archwilydd Cyffredinol yn fodlon eu bod yn adlewyrchu sefyllfa'r Bwrdd Iechyd a'i gostau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn;
- Fodd bynnag, bydd y cyfrifon yn cael barn reoleiddiol amodol gan nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei ddyletswydd ariannol gyntaf i fantoli'r gyllideb dros y cyfnod o dair blynedd o 2023-24 i 2025-26;
- Mae Archwilio Cymru wedi adrodd am ddau gamddatganiad heb eu cywiro sy'n deillio o'r ffordd y mae meddalwedd cofrestr asedau cyfalaf y Bwrdd Iechyd yn cyfrifo ac yn adrodd ar rai mathau o drafodion; mae'r materion hyn wedi'u cynnwys mewn nodyn penodol o'r cyfrifon ac nid ydynt yn effeithio ar werth net cyffredinol asedau sefydlog ar bapur;
- Nododd Archwilio Cymru hefyd nifer fach o gamddatganiadau yn y cyflwyniad heb ei archwilio a gywirwyd gan y rheolwyr yn ystod yr archwiliad.

## 4.0 Y camau nesaf

Yn dilyn adolygiad o ganfyddiadau Archwilio Cymru, mae'r Pwyllgor Archwilio wedi argymell bod y Bwrdd yn cymeradwyo ac yn mabwysiadu datganiadau ariannol blynyddol 2025-26 wedi'u harchwilio.

Bydd cyfarfodydd hefyd yn cael eu trefnu i adolygu'r prosesau a ddilynwyd wrth gynhyrchu cyfrifon blynyddol 2025-26 i ymgorffori dysgu a gwella'r gwaith o adrodd ac archwilio datganiadau ariannol ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27.

**Yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Archwilio, gofynnir i'r Bwrdd Iechyd fabwysiadu datganiadau ariannol blynyddol 2025-26 wedi'u harchwilio**

**Rhestr o Atodiadau:**

Atodiad 1 – Datganiadau ariannol blynyddol 2025/26 wedi'u harchwilio

Atodiad 2 – Cyflwyniad y Pwyllgor Archwilio (detholiad) ar Ddatganiadau Ariannol 2025-26

Mae (a) Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd (b) Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol i'r Senedd ac (c) Llythyr Cynrychiolaeth wedi'u cynnwys yn adroddiad yr Archwilwyr i'r aelodau.

**Atodiad 2 – Cyflwyniad y Pwyllgor Archwilio ar Gyfrifon 2025-26 (detholiad).**

**Cyflawniad o fetrigau allweddol**
**Delivery of key metrics**

| | | £million | |
|---|---|---|---|
| Net operating costs | 2025-26 | £2,458.5m | **Did not achieve the first financial duty to break-even:** ***Expenditure does not exceed the aggregate funding over a three year period*** |
| Revenue Resource Allocation | 2025-26 | £2,441.2m | |
| **Gorwariant yn erbyn Terfyn Adnoddau Refeniw**<br>**Overspend of Revenue Resource Allocation** | **2025-26 (Draft)** | **(£17.3m)** | |
| Gorwariant 2024-25<br>Overspend in 2024-25 | 2024-25 | **(£7.6m)** | |
| Gorwariant 2023-24<br>Overspend in 2023-24 | 2023-24 | **(£24.3m)** | |
| **Cyfanswm gorwariant**<br>**Cumulative overspend** | **2023-24 to 2025-26** | **(£49.2m)** | **Delivered capital programme within resource limit** |
| **Tanwariant o ddyraniad adnoddau cyfalaf**<br>**Underspend of Capital Resource Allocation (£59.1m)** | **2025-26** | **£0.065m** | **Strong performance, exceeding the PSPP 95% targeted delivery** |
| **Nifer o anfonebau heb fod yn GIG a dalwyd o fewn 30 diwrnod / Number of non-NHS invoices paid within 30 days** | **2025-26** | **96.9%** | |

**Ymgysylltu (mewnol/allanol) yr ymgymerwyd ag ef hyd yma (gan gynnwys derbyn/ ystyried yn y Pwyllgor/Grŵp)**
**Engagement (internal/external) undertaken to date (including receipt/consideration at Committee/Group)**

| **Pwyllgor / Grŵp / Unigolion**<br>**Committee / Group / Individuals** | **Dyddiad**<br>**Date** | **Canlyniad, Tystiolaeth a Data**<br>**Outcome, Evidence and Data** |
|---|---|---|
| Mae cyfarfodydd rheolaidd bob pythefnos wedi cael eu cynnal gydag Archwilio Cymru ers mis Ionawr 2026 i drafod cynnydd tuag at gwblhau'r cyfrifon blynyddol ac unrhyw faterion diwedd blwyddyn | Ionawr-Mai 2026 | Mae Archwilio Cymru wedi cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran paratoi cyfrifon diwedd blwyddyn a chyfrifon blynyddol, sydd hefyd wedi rhoi cyfle i drafod unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg neu newidiadau i ddulliau cyfrifyddu. |
| Mae gofynion a dulliau gweithredu cyfrifon blynyddol wedi cael eu trafod yng nghyfarfodydd misol yr is- | Ebrill 2025-Mawrth 2026 | Mae cyfarfodydd y Grwpiau Cyfrifyddu Technegol wedi rhoi cyfle i drafod gofynion y cyfrifon |

| | | |
|---|---|---|
| grwpiau a'r Grŵp Cyfrifyddu Technegol Cymru Gyfan. Mae cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru a phob sefydliad yn GIG Cymru yn bresennol yn y cyfarfodydd hyn.<br><br>Cafodd y Pwyllgor Archwilio ei friffio ar berfformiad diwedd blwyddyn a chynnydd tuag at baratoi'r cyfrifon blynyddol yn y cyfarfod ar 21 Ebrill 2026<br><br>Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd y cyfrifon blynyddol heb eu harchwilio i dîm llawn Archwilio Cymru ar ddechrau ei archwiliad ar 5 Mai 2026 | <br><br><br><br><br>21 Ebrill 2026<br><br><br><br><br><br>5 Mai 2026 | blynyddol â Llywodraeth Cymru. Mae hefyd wedi rhoi cyfleoedd i drafod dulliau cyfrifyddu a dulliau o baratoi'r cyfrifon blynyddol gyda sefydliadau eraill GIG Cymru.<br><br>Cafodd y Pwyllgor Archwilio ei friffio ar y sefyllfa ddiwedd blwyddyn a pharatoi cyfrifon blynyddol cyn cyflwyno'r cyfrifon heb eu harchwilio ar 1 Mai 2026<br><br>Roedd hwn yn gyfle i gyflwyniadau rhwng tîm Archwilio Cymru a thîm y Bwrdd Iechyd ac i Archwilio Cymru gael gwybod am unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau cyn iddynt ddechrau ar eu gwaith ar gyfrifon blynyddol 2025-26. |

| **Acronymau / Rhestr Termau**<br>**Acronyms / Glossary of Terms** | |
|---|---|
| Amh | |

| ASESIAD / ASSESSMENT | |
|---|---|
| **Cyswllt â'r Blaenoriaethau Strategol**<br>**Link to Strategic Priorities** | Dewiswch eitem.<br><br>Mae'r wybodaeth ariannol a archwiliwyd yn dystiolaeth o berfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn gofynion ariannol rheoleiddiol. |
| **Yr Egwyddorion Dylunio**<br>**Design Principles** | Gwario Doeth<br><br>Mae'r cyfrifon blynyddol yn rhoi manylion llawn y gwariant a gafwyd yn ystod 2025-26 ar draws nifer o benawdau, gan gynnwys yn ôl math o wariant a sefydliadau y mae'r Bwrdd Iechyd wedi delio â nhw.<br><br>Mae hyn yn caniatáu i Archwilio Cymru, Llywodraeth Cymru a darllenwyr y cyfrifon ffurfio barn ar sut mae adnoddau cyhoeddus wedi cael eu gwario. |
| **Fframwaith Risgiau Corfforaethol a Sicrwydd y Bwrdd**<br>**Corporate Risks and Board Assurance Framework** | Mae Archwilio Cymru wedi cwblhau ei archwiliad o ddatganiadau ariannol 2025-26 y Bwrdd Iechyd ac mae'n cyflwyno ei ganfyddiadau i'r Pwyllgor Archwilio.<br><br>Mae'r adroddiad yn rhoi manylion am y farn archwilio y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu ei chyhoeddi ar ôl cwblhau gwaith Archwilio Cymru. |

| ASESIADAU O EFFAITH / IMPACT ASSESSMENTS | | |
|---|---|---|
| **Deddf Cydraddoldeb 2010 Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus:**<br>**A yw BIPBC wedi darparu tystiolaeth o 'Sylw Dyledus' i gydymffurfio â thair rhan Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (Dyletswydd Gyffredinol):**<br>[https://www.llyw.cymru/dyletswydd-cydraddoldeb-y-sector-cyhoeddus-htmlDyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus [HTML] LLYW.CYMRU](https://www.llyw.cymru/dyletswydd-cydraddoldeb-y-sector-cyhoeddus-html) | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☐ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | Natur weinyddol yn unig sydd i'r adroddiad hwn. Nid yw'r dyletswyddau sector cyhoeddus cysylltiedig yn berthnasol (nid oes unrhyw effeithiau cysylltiedig ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchodedig). |
| | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☐ |

| | | |
|---|---|---|
| **Deddf Cydraddoldeb 2010 - Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol**<br>*A yw BIPBC wedi darparu tystiolaeth o 'Sylw Dyledus' o ran cydymffurfio â'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol?* | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | Natur weinyddol yn unig sydd i'r adroddiad hwn. Nid yw'r dyletswyddau sector cyhoeddus cysylltiedig yn berthnasol (nid oes unrhyw effeithiau cysylltiedig ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchodedig). |
| *Ydych chi wedi llenwi Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb Integredig WP8a?*<br>*[Templed WP8a]* | Canlyniad/Outcome:<br>Do/Yes: | Naddo/No: ☐ |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale:<br>Canlyniad/Outcome: | Natur weinyddol yn unig sydd i'r adroddiad hwn. Nid yw'r dyletswyddau sector cyhoeddus cysylltiedig yn berthnasol (nid oes unrhyw effeithiau cysylltiedig ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchodedig). |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | Natur weinyddol yn unig sydd i'r adroddiad hwn. Nid yw'r dyletswyddau sector cyhoeddus cysylltiedig yn berthnasol (nid oes unrhyw effeithiau cysylltiedig ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchodedig). |
| **Deddf Hawliau Dynol**<br>*A roddir sylw i bryderon sy'n ymwneud â Hawliau Dynol yn Wp8a?* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☐ |
| | Canlyniad/Outcome: | Natur weinyddol yn unig sydd i'r adroddiad hwn. Nid yw'r dyletswyddau sector cyhoeddus cysylltiedig yn berthnasol (nid oes unrhyw effeithiau cysylltiedig ar unrhyw |

| | | |
|---|---|---|
| | | un o’r grwpiau gwarchodedig). |
| **Cydymffurfio â gofynion o ran y Gymraeg?**<br>*A ydych chi wedi cynnal Asesiad o’r Effaith?* | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: Do. Bydd fersiwn derfynol y datganiadau ariannol blynyddol wedi’u harchwilio ar gael yn ddwyieithog<br>If no, please include rationale: | Naddo/No: ☐ |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | |
| **Cydymffurfiad o ran rhoi ‘Sylw Dyledus’ i egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog**<br>*A roddodd WP8a sylw i egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☐ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | Natur weinyddol yn unig sydd i'r adroddiad hwn. Nid yw’r dyletswyddau sector cyhoeddus cysylltiedig yn berthnasol (nid oes unrhyw effeithiau cysylltiedig ar unrhyw un o’r grwpiau gwarchodedig). |
| **Ansawdd**<br>*A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o’r Asesiad o’r Effaith ar Ansawdd?*<br>**Quality**<br>*Have you undertaken a Quality Impact Assessment Screening?* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☐ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | **Galluogwyr Ansawdd Enablers of Quality**<br>Dewiswch eitem.<br><br>Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: | Natur weinyddol yn unig sydd i'r adroddiad hwn. |

| | | |
|---|---|---|
| **[Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Nodau Llesiant Wellbeing of Future Generations Act – Wellbeing Goals]** | | |
| **Effaith Amgylcheddol / Cynaliadwyedd (5Rs) Environmental /Sustainability Impact (5Rs)** | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: | |
| | Na - Ddim yn berthnasol | |
| | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny:<br>If more than one applies, please list: | |
| **Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data**<br>*A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data?*<br>**Data Protection Impact Assessment**<br>*Have you undertaken a Data Protection Impact Assessment Screening?* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☐ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | Natur weinyddol yn unig sydd i'r adroddiad hwn. |
| **Asesiad o'r Effaith ar Atal Twyll**<br>*A ydych chi wedi ystyried yr effeithiau ar atal twyll?*<br>**Counter Fraud Impact**<br>*Have you considered the counter fraud impacts* | Do/Yes: ☒ | Naddo/No: ☐ |
| | Canlyniad/Outcome: | Wedi'i gwblhau |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | Roedd y Llythyr Ymholiadau Archwilio a gyflwynodd y Bwrdd Iechyd i Archwilio Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu a rheoli ystyried y risg o gamddatganiad o bwys oherwydd twyll, gan gynnwys y posibilrwydd o gamddefnyddio asedau a'r posibilrwydd o gamddefnyddio neu gamddatgan y datganiadau ariannol. |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfreithiol**<br>**Legal** | Do (Rhowch ragor o fanylion isod) |
| | Mae'n ofyniad statudol ar y Bwrdd Iechyd i baratoi set o Gyfrifon Blynyddol Archwilio ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru, ar gyfer Llywodraeth Cymru ac ar gyfer eu gosod yn y Senedd. |
| **Enw Da**<br>**Reputational** | Do (Rhowch ragor o fanylion isod) |
| | Mae'r cyfrifon blynyddol yn dangos perfformiad yn erbyn gofynion ariannol rheoleiddiol a mesurau perfformiad Llywodraeth Cymru.<br><br>Mae Archwilio Cymru wedi cwblhau'r archwiliad statudol ac yn cadarnhau bod cyfrifon blynyddol y Bwrdd Iechyd yn adlewyrchiad cywir a theg o weithgareddau yn ystod 2025-26 a'r sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn. |
| **Effaith ar Adnoddau**<br>*(Pobl / Ariannol)*<br>**Resource Impact**<br>*(People / Financial)* | Do (Rhowch ragor o fanylion isod) |
| | Gall gweithgareddau ariannol y Bwrdd Iechyd, ynghyd â'r hyn a gyflawnwyd yn erbyn mesurau perfformiad Llywodraeth Cymru, effeithio ar yr adnoddau sydd ar gael yn y blynyddoedd i ddod. |

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

## Bwrdd Iechyd

# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2025-2026

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod**<br>**Date of Meeting** | 25 June 2026 |
| **Statws Cyhoeddi**<br>**Publication Status** | Agored / Cyhoeddus<br>Amherthnasol |
| **Enw a theitl Awdur(on) yr Adroddiad**<br>**Report Author name and title** | Philippa Peake-Jones – Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol |
| **Enw a theitl Aelod Arweiniol o'r Tîm Gweithredol**<br>**Lead Executive Team Member name and title** | Pam Wenger, Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol |

| | |
|---|---|
| **Pwrpas yr Adroddiad**<br>**Report Purpose** | Ennyn cymeradwyaeth gan y Bwrdd |

**Crynodeb Gweithredol**
**Executive Summary**

Gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2025-2026, sy'n rhoi trosolwg cynhwysfawr o berfformiad, llywodraethiant a sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026.

Mae tair rhan i'r Adroddiad Blynyddol: yr Adroddiad Perfformiad, sy'n nodi'r hyn a gyflawnir yn erbyn amcanion strategol a'r prif risgiau; yr Adroddiad Atebolrwydd, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol; a'r Datganiadau Ariannol, sy'n crynhoi perfformiad ariannol a chydymffurfiad â dyletswyddau statudol.

Mae'r flwyddyn yn adlewyrchu ffocws sefydliadol parhaus ar gryfhau llywodraethiant a goruchwyliaeth. Mae tystiolaeth gan Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru yn dangos cynnydd o ran gwella trefniadau llywodraethu, gwella tryloywder, a gwreiddio arferion mwy agored yn y sefydliad. Er bod gwelliannau i'w gweld, mae'r rhain yn dal yn eu camau cynnar ac nid ydynt wedi'u gwreiddio'n llawn eto.

Mae'r adroddiad yn rhoi asesiad cytbwys a thryloyw o berfformiad, gan gydnabod bod heriau gweithredol parhaus ar draws gofal brys a gofal argyfwng, gofal a

| |
|---|
| gynlluniwyd, diagnosteg a gwasanaethau canser, sy'n dal i beri risgiau sylweddol o ran cyflawniad a pherfformiad.<br><br>Mae'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yn nodi sefyllfa'r Bwrdd Iechyd mewn perthynas â llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol, gan gynnwys cydymffurfio â dyletswyddau statudol. Mae hyn yn cynnwys dyletswyddau ariannol statudol, lle mae'r sefyllfa'n gyson â'r hyn a adroddwyd yn y Cyfrifon Blynyddol ac yn cyd-fynd â barn yr Archwilydd Cyffredinol ar reoleidd-dra.<br><br>Yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd, bydd y Cyfrifon a'r Adroddiad Blynyddol yn cael eu cwblhau i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru ac Archwilio Cymru yn unol â'r gofynion statudol. |

| **Ymgysylltu (mewnol/allanol) yr ymgymerwyd ag ef hyd yma (gan gynnwys derbyn/ystyried yn y Pwyllgor/Grŵp)**<br>**Engagement (internal/external) undertaken to date (including receipt/consideration at Committee/Group)** | | |
|---|---|---|
| **Pwyllgor / Grŵp / Unigolion**<br>**Committee / Group / Individuals** | **Dyddiad**<br>**Date** | **Canlyniad, Tystiolaeth a Data**<br>**Outcome, Evidence and Data** |
| Archwilio Mewnol | | Wedi rhoi mewnbwn ar sicrwydd ar gyfer llywodraethiant a'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol |
| Archwilio Cymru | | Adolygiad allanol ac adborth wedi'u hymgorffori yn y drafft |

| **Acronymau / Rhestr Termau**<br>**Acronyms / Glossary of Terms** | |
|---|---|
| AGS | Datganiad Llywodraethiant Blynyddol |

# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2025-26

1. **Y SEFYLLFA**
**SITUATION**

1.1 Gofynnir i'r Bwrdd Iechyd gymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2025/26, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol, cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ac Archwilio Cymru erbyn 30 Mehefin 2026.

1.2 Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o berfformiad, llywodraethiant ac atebolrwydd y sefydliad ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2025 a mis Mawrth 2026

2 **Y CEFNDIR**
**BACKGROUND**

**2.1 Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cynnwys:**

- Adroddiad Perfformiad, sy'n rhoi asesiad o gyflawniad yn erbyn amcanion strategol, y prif risgiau, a pherfformiad yn ystod y cyfnod adrodd;
- Adroddiad Atebolrwydd, sy'n cynnwys:
  - Adroddiad Llywodraethiant Corfforaethol
  - Adroddiad Taliadau a Staff
  - Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Seneddol;
- Y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol, sy'n rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd ac sy'n rhoi asesiad cynhwysfawr o drefniadau'r Bwrdd Iechyd o ran llywodraethiant, systemau rheolaeth fewnol, rheoli risg a chydymffurfio â dyletswyddau statudol, gan gynnwys dyletswyddau ariannol.

**2.2 Yr Adroddiad Perfformiad**

Paratowyd yr Adroddiad Perfformiad yn unol â Llawlyfr Cyfrifon GIG Cymru, sy'n cyd-fynd â'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol a gofynion Deddf Cwmnïau 2006 ar gyfer Adroddiadau Strategol.

Mae'n nodi pwrpas, amcanion strategol, prif risgiau a pherfformiad y Bwrdd Iechyd yn ystod 2025/26, gan adlewyrchu'r cyflawniad yn erbyn y Cynllun Tymor Canolig Integredig a rhoi asesiad tryloyw ac agored o'r cynnydd a'r heriau parhaus.

Mae'r adroddiad wedi cael ei ddatblygu i fodloni'r gofyniad i'r Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, gan gynnwys croesgyfeiriadau priodol at wybodaeth ategol lle bo hynny'n ychwanegu gwerth i'r darllenydd.
Mae'r Adroddiad Perfformiad wedi cael ei adolygu i sicrhau cysondeb â'r Datganiadau Ariannol a'r Adroddiad Blynyddol ehangach, ac mae wedi cael ei baratoi yn unol â disgwyliadau archwilio. Bydd yn cael ei lofnodi a'i ddyddio gan y Swyddog Atebol.

## 2.3 Yr Adroddiad Atebolrwydd

Mae'r Adroddiad Atebolrwydd wedi cael ei baratoi yn unol â Llawlyfr Cyfrifon GIG Cymru, sy'n cyd-fynd â'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol a darpariaethau perthnasol Deddf Cwmnïau 2006, fel y'i haddaswyd ar gyfer y sector cyhoeddus.

Mae'n rhoi cyfrif cynhwysfawr o drefniadau llywodraethiant, taliadau ac atebolrwydd y Bwrdd Iechyd ac mae wedi'i rannu'n dair adran: yr Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol, yr Adroddiad Taliadau a Staff, a'r Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Seneddol.

Mae'r adroddiad yn cynnwys datgeliadau gofynnol mewn perthynas â llywodraethiant, tâl uwch reolwyr, gwybodaeth am y gweithlu ac atebolrwydd seneddol, gan gynnwys materion sy'n ymwneud â rheoleidd-dra a dyletswyddau ariannol statudol. Mae'r datgeliadau hyn yn gyson â'r Datganiadau Ariannol ac yn adlewyrchu safbwynt y Bwrdd Iechyd fel yr adroddwyd yn y Cyfrifon a'r Adroddiad Blynyddol, gan gynnwys cysoni â barn yr Archwilydd Cyffredinol ar reoleidd-dra.

Mae'r Adroddiad Atebolrwydd wedi cael ei baratoi yn unol â disgwyliadau archwilio, ac mae'r elfennau hynny sy'n destun archwiliad wedi cael eu nodi'n glir. Bydd yr adroddiad cael ei lofnodi a'i ddyddio gan y Swyddog Atebol, y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Cadeirydd.

## 2.4 Datganiad Llywodraethiant Blynyddol

Mae'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol, sy'n cael ei ddarparu fel atodiad i'r ddogfen hon, yn rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd yn y Cyfrifon a'r Adroddiad Blynyddol. Mae'n rhoi asesiad cynhwysfawr o drefniadau llywodraethiant y Bwrdd Iechyd, ei systemau rheolaeth fewnol, ei ddull o reoli risg, a'i gydymffurfiad â dyletswyddau statudol, gan gynnwys dyletswyddau ariannol.

Datblygwyd y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yn unol â Llawlyfr Cyfrifon GIG Cymru ac mae'n adlewyrchu'r strwythur a argymhellir, gan gynnwys adrannau ar gwmpas cyfrifoldeb, fframwaith llywodraethiant, system rheolaeth fewnol, capasiti i ddelio â risg, fframwaith rheolaeth, trefniadau cynllunio, adolygu effeithiolrwydd, a datgeliadau allweddol. Mae atodiadau ategol yn cynnwys gwybodaeth fanwl am aelodau, presenoldeb a chworwm y Bwrdd a'r Pwyllgor, ynghyd â chofnod o Gyfarwyddiadau Gweinidogol.

Mae cynnwys y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yn adlewyrchu cyd-destun penodol y sefydliad yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys rhoi'r Bwrdd Iechyd mewn Mesurau Arbennig, a'r heriau sy'n gysylltiedig â hynny o ran gweithredu a llywodraethu. Mae'n rhoi cyfrif cytbwys a thryloyw o'r cynnydd a sydd wedi cael ei wneud o ran cryfhau trefniadau llywodraethiant, ochr yn ochr â meysydd lle mae

angen gwella ymhellach, gan gynnwys materion sy'n ymwneud â chydymffurfio â dyletswyddau statudol ac ariannol.
Mae'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol hefyd yn adlewyrchu sefyllfa'r Bwrdd Iechyd o ran dyletswyddau ariannol statudol yn ystod 2025/26, sy'n gyson â'r Cyfrifon Blynyddol a barn yr Archwilydd Cyffredinol ar reoleidd-dra.

Mae'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol wedi bod yn destun adolygiad mewnol cynhwysfawr, lle cafodd ei ystyried gan y Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio, gyda mewnbwn gan y Pennaeth Archwilio Mewnol. Mae sicrwydd ychwanegol wedi cael ei roi drwy adolygiad annibynnol gan yr Is-gadeirydd. Mae'r Pwyllgor Archwilio hefyd wedi ystyried hunanasesiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn y Cod Llywodraethiant Corfforaethol ac wedi cefnogi ei gynnwys yn yr Adroddiad Atebolrwydd.

## 3 MATERION PENODOL I'W HYSTYRIED<br>SPECIFIC MATTERS FOR CONSIDERATION

3.1 Gofynnir i'r bwrdd ystyried y canlynol:

- A yw'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn cyflwyno asesiad teg, cytbwys a dealladwy o berfformiad, llywodraethiant a sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2025/26.
- Y sefyllfa o ran cydymffurfio â dyletswyddau statudol, gan gynnwys dyletswyddau ariannol statudol a dyletswyddau cynllunio yn ystod 2025/26 fel y cânt eu datgelu a'u hadlewyrchu'n gyson ar draws y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol, y Cyfrifon Blynyddol a barn yr Archwilydd Cyffredinol ar reoleidd-dra.
- Cynnwys y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol, gan gynnwys i ba raddau y mae'n rhoi asesiad tryloyw a chytbwys o effeithiolrwydd llywodraethiant, systemau rheolaeth fewnol, rheolaeth risg a chydymffurfiad, yn enwedig yng nghyd-destun Mesurau Arbennig.
- Y sefyllfa o ran rheoleidd-dra, fel yr adlewyrchir yn y Cyfrifon Blynyddol a barn yr Archwilydd Cyffredinol, a dealltwriaeth y Bwrdd o oblygiadau peidio â chydymffurfio â dyletswyddau ariannol statudol.
- Y sicrwydd a roddir gan y Pwyllgor Archwilio a'r Archwilwyr Mewnol, gan gynnwys cadarnhad bod yr adroddiad wedi bod yn destun craffu priodol a'i fod yn adlewyrchu amgylchedd llywodraethu, rheoli risg, a rheolaeth y sefydliad.
- I ba raddau y mae'r adroddiad yn adlewyrchu heriau a risgiau gweithredol parhaus yn briodol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â gofal brys a gofal mewn argyfwng, gofal wedi'i gynllunio, diagnosteg a pherfformiad canser.
- Y gofyniad i gymeradwyo a chyflwyno'n brydlon er mwyn bodloni terfynau amser statudol a sicrhau cydymffurfiad â gofynion adrodd Llywodraeth Cymru.

3.2 Mae'r flwyddyn yn adlewyrchu ffocws sefydliadol parhaus ar gryfhau llywodraethiant a goruchwyliaeth. Er bod Archwilio Cymru a Llywodraeth

Cymru yn cydnabod cynnydd o ran gwella trefniadau'r sefydliad o ran llywodraethiant, tryloywder a bod yn agored, mae'r gwelliannau hyn yn dal yn y camau cynnar ac nid ydynt wedi'u gwreiddio'n llawn eto. Mae rhai manteision cychwynnol i'w gweld mewn meysydd fel aeddfedrwydd llywodraethiant a delio â chwynion.

3.3 Mae'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yn nodi sefyllfa'r Bwrdd Iechyd mewn perthynas chydymffurfio â Rheolau Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, a dyletswyddau statudol. Mae hyn yn cynnwys dyletswyddau ariannol statudol, lle nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi llwyddo i gydymffurfio'n llawn yn ystod 2025/26.

3.4 Camau Nesaf / Camau ar ôl Cymeradwyo
Bydd tair cydran yr Adroddiad Blynyddol yn cael eu rhoi mewn un ddogfen yn derfynol, a bydd prosesau gwirio cyfeirnodau tudalennau a phrawf-ddarllen trylwyr yn cael eu cynnal cyn cyflwyno'r adroddiad.

- Ar ôl i'r Bwrdd gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol, y Datganiadau Ariannol a'r Llythyr Sylwadau, byddant yn cael eu llofnodi gan y swyddogion perthnasol a'u cyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru erbyn 30 Mehefin 2026.
- Bydd yr Adroddiad Blynyddol terfynol yn cael ei gyflwyno yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol BIPBC, lle cyhoeddir Crynodeb Hygyrch o'r Adroddiad Blynyddol.
- Bydd y dogfennau terfynol cymeradwy yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg at ddibenion hygyrchedd a chydymffurfiad statudol.

## 4 RISGIAU ALLWEDDOL / MATERION I'W HUWCHGYFEIRIO<br>KEY RISKS / MATTERS FOR ESCALATION

- Risg o beidio â chydymffurfio â dyddiadau cau statudol ar gyfer cyflwyno
- Risg i enw da sy'n deillio o adroddiadau sy'n hwyr neu'n anghywir
- Risgiau parhaus i berfformiad gweithredol (gofal brys, gofal wedi'i gynllunio, diagnosteg) a nodir yn yr adroddiad

## 5 ARGYMHELLION<br>RECOMMENDATIONS

Gofynnir i'r aelodau wneud y canlynol:

- **CYMERADWYO** yr Adroddiad Blynyddol 2025-26 er mwyn ei gyflwyno i Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru.
- **CYMERADWYO** y Datganiadau Ariannol Blynyddol er mwyn eu cyflwyno i Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru.
- **CYMERADWYO** Lythyr Sylwadau i'w lofnodi gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, ar ran y Bwrdd.

| ASESIAD / ASSESSMENT | |
|---|---|
| **Cyswllt â'r Blaenoriaethau Strategol**<br>**Link to Strategic Intentions** | 4. Creu System Gofal Iechyd Fodern sy'n Canolbwyntio ar Bobl |
| | |
| | |
| **Yr Egwyddorion Dylunio**<br>**Design Principles** | Symleiddio, Safoni, a Mabwysiadu Arferion Gorau |
| **Fframwaith Risgiau Corfforaethol a Sicrwydd y Bwrdd**<br>**Corporate Risks and Board Assurance Framework** | Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r adroddiad hwn yn cyd-fynd â'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol, gan gynnwys risgiau sy'n ymwneud â chydymffurfio statudol (dyletswyddau ariannol a chynllunio), cynaliadwyedd ariannol ac effeithiolrwydd llywodraethiant. Mae'r risgiau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn sefyllfa reoleiddiol y Bwrdd Iechyd a barn yr Archwilydd Cyffredinol ar reoleidd-dra. Rheolir y gwaith o oruchwylio a lliniaru drwy drefniadau llywodraethiant sefydledig, gan gynnwys craffu gan y Bwrdd a'r Pwyllgor. |

| ASESIADAU O EFFAITH / IMPACT ASSESSMENTS | | |
|---|---|---|
| **Deddf Cydraddoldeb 2010 Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus:**<br>**A yw BIPBC wedi darparu tystiolaeth o 'Sylw Dyledus' i gydymffurfio â thair rhan Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (Dyletswydd Gyffredinol):**<br>[https://www.llyw.cymru/dyletswydd-cydraddoldeb-y-sector-cyhoeddus-htmlDyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus [HTML] LLYW.CYMRU](https://www.llyw.cymru/dyletswydd-cydraddoldeb-y-sector-cyhoeddus-html) | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | Amh. |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno adroddiad statudol ôl-weithredol o lywodraethiant a pherfformiad y sefydliad yn ystod 2025/26. Nid yw'n cyflwyno polisïau na phenderfyniadau newydd sy'n gofyn am asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. Mae ystyried yr effeithiau ar gydraddoldeb wedi'i wreiddio yn y gweithgareddau |

| | | |
|---|---|---|
| | | gweithredol a'r penderfyniadau a adroddwyd |
| **Deddf Cydraddoldeb 2010 - Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol**<br>*A yw BIPBC wedi darparu tystiolaeth o 'Sylw Dyledus' o ran cydymffurfio â'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol?* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | Nid yw'r adroddiad yn cynrychioli proses benderfynu strategol ond mae'n adlewyrchu gweithgarwch sydd eisoes wedi'i wneud. Mae ystyriaethau economaidd-gymdeithasol yn rhan o'r prosesau cynllunio a darparu gwasanaethau sylfaenol y cyfeirir atynt yn yr adroddiad. |
| *Ydych chi wedi llenwi Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb Integredig WP8a?*<br>*[Templed WP8a]* | Canlyniad/Outcome:<br>Do/Yes: | Naddo/No: ☒ |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale:<br>Canlynaid/Outcome: | Dim angen |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | Nid yw'r adroddiad yn cynrychioli proses benderfynu strategol ond mae'n adlewyrchu gweithgarwch sydd eisoes wedi'i wneud. Mae ystyriaethau economaidd-gymdeithasol yn rhan o'r prosesau cynllunio a darparu gwasanaethau sylfaenol y cyfeirir |

| | | |
|---|---|---|
| | | atynt yn yr adroddiad. |
| **Deddf Hawliau Dynol**<br>*A roddodd Wp8a sylw i bryderon sy'n ymwneud â Hawliau Dynol?* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | Nid oes dim effeithiau penodol ar hawliau dynol yn codi o baratoi'r adroddiad hwn. Mae ystyriaethau hawliau dynol yn rhan annatod o ddarparu gwasanaethau gofal iechyd ac fe'u hadlewyrchir yng nghynnwys gweithredol yr adroddiad. |
| **Cydymffurfio â gofynion o ran y Gymraeg?**<br>*A ydych chi wedi cynnal Asesiad o'r Effaith?* | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | Naddo/No: ☒ |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | Nid yw'r adroddiad hwn yn cynrychioli newid yn y modd y darperir gwasanaethau. Bydd yr Adroddiad Blynyddol terfynol yn cael ei gyfieithu i'r Gymraeg i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion y Gymraeg a safonau hygyrchedd. |
| **Cydymffurfiad o ran rhoi "Sylw Dyledus" i egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog**<br>*A roddodd WP8a sylw i egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog?* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | |

| | | |
|---|---|---|
| **Ansawdd**<br>*A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd?*<br>**Quality**<br>*Have you undertaken a Quality Impact Assessment Screening?* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | **Galluogwyr Ansawdd**<br>**Enablers of Quality**<br>Mae pob un yn berthnasol<br><br>Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: | Mae'r adroddiad yn rhoi asesiad ôl-weithredol o ansawdd a pherfformiad yn hytrach na chyflwyno newidiadau newydd i'r gwasanaeth. Mae ystyriaethau ansawdd yn cael eu hadlewyrchu yn yr Adroddiad Blynyddol drwyddo draw, gan gynnwys adrannau ar berfformiad a llywodraethiant |
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Nodau Llesiant**<br>**Wellbeing of Future Generations Act – Wellbeing Goals** | Ddim yn berthnasol<br><br>Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r gweithgarwch a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod adrodd ac nid yw'n benderfyniad strategol newydd sy'n galw am asesiad yn erbyn y nodau llesiant. | |
| **Effaith Amgylcheddol / Cynaliadwyedd (5Rs)**<br>**Environmental /Sustainability Impact (5Rs)** | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: | |
| | Na - Ddim yn berthnasol | |
| | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny:<br>If more than one applies, please list: | Nid yw paratoi'r adroddiad hwn yn cael effaith uniongyrchol ar yr amgylchedd nac ar gynaliadwyedd. |
| **Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data** | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |

| | | |
|---|---|---|
| *A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data?*<br>**Data Protection Impact Assessment**<br>*Have you undertaken a Data Protection Impact Assessment Screening?* | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | Mae'r adroddiad yn defnyddio data sefydliadol cyfanredol a dienw ac nid yw'n ymwneud â phrosesu data personol sy'n gofyn am Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data. |
| **Asesiad o'r Effaith ar Atal Twyll**<br>*A ydych chi wedi ystyried yr effeithiau ar atal twyll?*<br>**Counter Fraud Impact**<br>*Ydych chi wedi ystyried yr effeithiau o ran atal twyll* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | Nid oes dim goblygiadau gwrth-dwyll uniongyrchol yn codi o'r papur hwn. Mae trefniadau gwrth-dwyll yn cael eu hadlewyrchu yng nghynnwys llywodraethiant a sicrwydd yr Adroddiad Blynyddol. |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | |
| **Cyfreithiol**<br>**Legal** | Nid oes goblygiadau cyfreithiol penodol yn gysylltiedig â'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn. | |
| **Enw Da**<br>**Reputational** | Nid oes effaith uniongyrchol ar enw da'r Bwrdd Iechyd o ganlyniad i'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn. | |
| **Effaith ar Adnoddau**<br>*(Pobl / Ariannol)*<br>**Resource Impact**<br>*(People / Financial)* | Nid oes effaith uniongyrchol ar adnoddau o ganlyniad i'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn. | |

## Bwrdd Iechyd

# BARN AC ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL 2025/2026

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod**<br>**Date of Meeting** | 25 Mehefin 2026 |
| **Statws Cyhoeddi**<br>**Publication Status** | Agored / Cyhoeddus |
| | Amherthnasol |
| **Enw a theitl Awdur(on) yr Adroddiad**<br>**Report Author name and title** | Dave Harries, Pennaeth Archwilio Mewnol, CMIIA |
| **Enw a theitl Aelod Arweiniol o'r Tîm Gweithredol**<br>**Lead Executive Team Member name and title** | Carol Shillabeer, Swyddog Atebol (Prif Weithredwr)<br>Pam Wenger, Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol |

| | |
|---|---|
| **Pwrpas yr Adroddiad**<br>**Report Purpose** | I'w Nodi<br>Derbyn barn ac adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2025/26. |

| **Crynodeb Gweithredol**<br>**Executive Summary** |
|---|

Yn unol â'r *Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang sy'n ddarostyngedig i Nodyn Cais 10B Sector Cyhoeddus y DU: Casgliadau cyffredinol ac adroddiadau blynyddol*, mae'n ofynnol i'r Pennaeth Archwilio Mewnol roi barn flynyddol, yn seiliedig ar y gwaith a wneir ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu'r Bwrdd Iechyd (hynny yw, y system rheolaeth fewnol) ac wedi'i gyfyngu i'r gwaith hwnnw.

Y farn gyffredinol ar gyfer 2025/26 oedd ei fod yn darparu **Sicrwydd Cyfyngedig**. Gwnaethom gyhoeddi tri deg tri o dri deg pump o adolygiadau arfaethedig gyda'r sgoriau sicrwydd canlynol:

- Sicrwydd sylweddol (gwyrdd tywyll) – un (1).
- Sicrwydd rhesymol (gwyrdd golau) – deg (10).
- Sicrwydd cyfyngedig (melyn) – pedwar ar ddeg (14).
- Anfoddhaol (coch) – un (1).
- Barn gynghorol/amherthnasol (llwyd) – saith (7).

Bydd y ddau adolygiad a oedd yn dal ar y gweill ar ddiwedd y flwyddyn yn cael eu cynnwys ym marn ac adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2026/27.

| **Ymgysylltu (mewnol/allanol) yr ymgymerwyd ag ef hyd yma (gan gynnwys derbyn/ ystyried yn y Pwyllgor/Grŵp)**<br>**Engagement (internal/external) undertaken to date (including receipt/consideration at Committee/Group)** | | |
|---|---|---|
| **Pwyllgor / Grŵp / Unigolion**<br>**Committee / Group / Individuals** | **Dyddiad**<br>**Date** | **Canlyniad, Tystiolaeth a Data**<br>**Outcome, Evidence and Data** |
| Ddim yn berthnasol i'r adroddiad hwn | | |

| **Acronymau / Rhestr Termau**<br>**Acronyms / Glossary of Terms** | |
|---|---|
| AGIC | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru |
| AGS | Datganiad Llywodraethiant Blynyddol |
| AMaT | System Rheoli ac Olrhain Archwiliadau |
| BAF | Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd |
| CaNISC | System Gwybodaeth Rhwydweithiau Canser Cymru |
| CE+ | Cyber Essentials Plus |
| CfMHaS | Canolfan Iechyd Meddwl a Chymdeithas |
| DDaT | Digidol, Data a Thechnoleg |
| DHCW | Iechyd a Gofal Digidol Cymru |
| EQA | Asesu Ansawdd yn Allanol |
| ESR | Cofnod Staff Electronig |
| GIAS | Y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang |
| IAAP | Cynllun Archwilio a Sicrwydd Integredig |
| IRCF | Y Gronfa Gofal Integredig Ranbarthol |
| JCC | Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru |
| NICE | Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal |
| NWSSP | Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru |
| OBC | Achos Busnes Amlinellol |
| PMO | Swyddfa Rheoli Rhaglenni |
| QAIP | Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella |
| RAH | Ysbyty Brenhinol Alexandra |
| SFI / SFIs | Cyfarwyddyd / Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog |
| SOBC | Safonau Cynnal Busnes |
| SOP / SOPs | Gweithdrefn / Gweithdrefnau Gweithredu Safonol |
| STA / STAs | Gweithred / Gweithredoedd Tendr Sengl |
| TEF | Cyllid Ystadau wedi'u Targedu |

# BARN AC ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL 2025/2026

## 1. Y SEFYLLFA<br>SITUATION

1.1 Mae'r adroddiad yn rhoi manylion barn sicrwydd flynyddol ofynnol Pennaeth Archwilio Mewnol 2025/26 ar gyfer Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr.

1.2 Mae'r farn flynyddol yn sicrwydd cyfyngedig fod y trefniadau i sicrhau llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol, o fewn y meysydd hynny sy'n cael eu hadolygu, yn cael eu cynllunio'n briodol a'u rhoi ar waith yn effeithiol.

## 2 Y CEFNDIR<br>BACKGROUND

2.1 Mae angen Barn ac Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol yn unol â *Llawlyfr Pwyllgor Archwilio GIG Cymru Llywodraeth Cymru – Adran 4.6 Adolygu barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol* a *Chyfarwyddyd Ariannol Sefydlog 3.2.1 (d)*.

2.2 Mae Barn ac Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol wedi cael eu paratoi'n annibynnol ar y rheolwyr ac maent yn rhydd o unrhyw ddylanwad gormodol.

## 3 MATERION PENODOL I'W HYSTYRIED<br>SPECIFIC MATTERS FOR CONSIDERATION

3.1 Yn dilyn yr adroddiad blynyddol a'r crynodebau a roddwyd ar gyfer pob adolygiad, cofnodwyd rhai materion allweddol ac fe'u nodir isod:

- **Rheoli contractau a chaffael:** Er ein bod yn cydnabod y camau a gymerwyd gan y Bwrdd Iechyd i reoli hepgor tendrau unigol a dyfarnu contractau yn ôl y gofyn yn uniongyrchol, mae nifer o adolygiadau yn 2025/26 wedi nodi materion cydymffurfio â rheolaeth fewnol yng Nghyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y Bwrdd Iechyd.
- **Llywodraethu cyfalaf:** Mae pryder sylweddol o hyd ynghylch rheolaeth y Bwrdd Iechyd o brosiectau cyfalaf lle mae sicrwydd anfoddhaol wedi'i gymhwyso i gynllun cyfalaf mawr am yr ail flwyddyn yn olynol.
- **Ceisiadau am dystiolaeth i gefnogi adolygiadau arfaethedig:** Rydym wedi dod ar draws achosion lle na chawsom unrhyw ymateb i'n ceisiadau am dystiolaeth eleni gan reolwyr gweithredol, ac nid yw hyn yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yng nghyfarwyddiadau ariannol sefydlog y Bwrdd Iechyd.

- **Cyflymder cynhyrchu adroddiadau:** Mae'r amser a gymerwyd i reolwyr ymateb i'r adroddiad drafft (20 diwrnod gwaith) wedi gostwng yn sylweddol yn y dangosydd hwn o 85% (gwyrdd) yn 2024/25 i 64% (coch) yn 2025/26.
- **Camau rheoli dilynol y cytunwyd arnynt:** Er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i nodi o ran cau argymhellion, nid yw ar y lefel ddisgwyliedig, gyda rhywfaint o dystiolaeth wedi'i darparu nad yw'n ymwneud â'r camau rheoli y cytunwyd arnynt.

## 4 RISGIAU ALLWEDDOL / MATERION I'W HUWCHGYFEIRIO
## KEY RISKS / MATTERS FOR ESCALATION

4.1 Nid oes unrhyw risgiau penodol ar wahân i'r rhai sy'n ymwneud ag adolygiadau / canfyddiadau unigol.

## 5 ARGYMHELLION
## RECOMMENDATIONS

5.1 Gofynnir i'r Bwrdd wneud y canlynol:

- **NODI** a **DERBYN** barn ac adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2025/26.

| ASESIAD / ASSESSMENT | |
|---|---|
| **Cyswllt â'r Blaenoriaethau Strategol**<br>**Link to Strategic Intentions** | 4. Creu System Gofal Iechyd Fodern sy'n Canolbwyntio ar Bobl |
| | |
| | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: |
| **Yr Egwyddorion Dylunio**<br>**Design Principles** | Gwario Doeth<br>Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: |
| **Fframwaith Risgiau Corfforaethol a Sicrwydd y Bwrdd**<br>**Corporate Risks and Board Assurance Framework** | Amherthnasol ac eithrio'r rheini sy'n ymwneud ag adolygiadau / argymhellion archwilio unigol. |

| ASESIADAU O EFFAITH / IMPACT ASSESSMENTS | | |
|---|---|---|
| **Cydraddoldeb**<br>*A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (sy'n cynnwys gofynion Safonau'r Gymraeg)*<br>**Equality**<br>*Have you undertaken an Equality Impact Assessment Screening (which includes the requirements of the Welsh Language Standards)* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | Nid yw'r ddyletswydd Cydraddoldeb yn berthnasol.<br>Mae angen Barn ac Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol yn unol â Llawlyfr Pwyllgor Archwilio GIG Cymru Llywodraeth Cymru – Adran 4.6 Adolygu barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol.<br>Nid yw'r dyletswyddau sector cyhoeddus cysylltiedig yn berthnasol (nid oes unrhyw effeithiau cysylltiedig ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchodedig). |
| | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |

| | | |
|---|---|---|
| **Asesiad o'r Effaith Economaidd-gymdeithasol**<br>*A ydych chi wedi cynnal Asesiad o'r Effaith Economaidd-Gymdeithasol?*<br>**Socio-Economic Impact Assessment**<br>*Have you undertaken a Socio-Economic Impact Assessment* | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | Nid yw'r ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn berthnasol.<br>Mae angen Barn ac Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol yn unol â Llawlyfr Pwyllgor Archwilio GIG Cymru Llywodraeth Cymru – Adran 4.6 Adolygu barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol.<br>Nid yw'r dyletswyddau sector cyhoeddus cysylltiedig yn berthnasol (nid yw'r adroddiad yn ymwneud â phenderfyniad, strategol na fel arall). |
| **Ansawdd**<br>*A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd?*<br>**Quality**<br>*Have you undertaken a Quality Impact Assessment Screening?* | **Galluogwyr Ansawdd**<br>**Enablers of Quality**<br>Mae pob un yn berthnasol | **Meysydd Ansawdd**<br>**Domains of Quality** Mae pob un yn berthnasol |
| | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: |
| | | |
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Nodau Llesiant**<br>**Wellbeing of Future Generations Act – Wellbeing Goals** | Ddim yn berthnasol | |

| | |
|---|---|
| **Effaith Amgylcheddol / Cynaliadwyedd (5Rs)** | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: |

| | | |
|---|---|---|
| **Environmental /Sustainability Impact (5Rs)** | If more than one applies, please list below: | |
| | Na - Ddim yn berthnasol | |
| | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny:<br>If more than one applies, please list: | |
| **Dyletswydd Sylw Dyladwy Cyfamod y Lluoedd Arfog**<br>A ydych chi wedi ystyried Dyletswydd Sylw Dyladwy Cyfamod y Lluoedd Arfog:<br>**Armed Forces Covenant Due Regard Duty**<br>Have you considered the Armed Forces Covenant Due Regard Duty? | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | Nid yw dyletswydd Sylw Dyledus Cyfamod y Lluoedd Arfog yn berthnasol.<br>Mae angen Barn ac Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol yn unol â Llawlyfr Pwyllgor Archwilio GIG Cymru Llywodraeth Cymru – Adran 4.6 Adolygu barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol. |
| **Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data**<br>*A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data?*<br>**Data Protection Impact Assessment**<br>*Have you undertaken a Data Protection Impact Assessment Screening?* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | Nid oes unrhyw wybodaeth adnabod wedi'i chynnwys yn yr adroddiad cynnydd na'r adroddiadau. |
| **Asesiad o'r Effaith ar Atal Twyll**<br>*A ydych chi wedi ystyried yr effeithiau ar atal twyll?*<br>**Counter Fraud Impact Assessment**<br>*Have you considered the counter fraud impacts* | Do/Yes: ☒ | Naddo/No: ☐ |
| | Canlyniad/Outcome: | Mae ystyriaethau Atal Twyll yn cael eu hystyried ar gyfer pob adolygiad archwilio perthnasol. |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | |

| | |
|---|---|
| **Cyfreithiol**<br>**Legal** | Nid oes goblygiadau cyfreithiol penodol yn gysylltiedig â'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn. |
| **Enw Da**<br>**Reputational** | Nid oes effaith uniongyrchol ar enw da'r Bwrdd Iechyd o ganlyniad i'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn. |
| **Effaith ar Adnoddau**<br>*(Pobl / Ariannol)*<br>**Resource Impact**<br>*(People / Financial)* | Nid oes effaith uniongyrchol ar adnoddau o ganlyniad i'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn. |